**Datganiad i'r Wasg**

Dyddiad Rhyddhau: 12:00 canol dydd ar ddydd Iau 28ain Gorffennaf 2011

# Y TÎM THEATR GERDD AROBRYN DAFYDD JAMES A BEN LEWIS YN DOD AG YCHYDIG O'R OCWLT I NEUADDAU PENTREF CYMRU



Ar gyfer ail gynhyrchiad eu hail flwyddyn - a'u sioe gerdd gyntaf erioed - bydd National Theatre Wales yn teithio i neuaddau pentref ar draws y wlad, gyda darn theatr gerddorol swreal a macabr - *The Village Social*. Mae'r sioe hon wedi'i chreu ar y cyd gan y bartneriaeth arobryn Dafydd James a Ben Lewis, y ddau oedd yn gyfrifol am sioe lwyddiannus cwlt gŵyl Fringe Caeredin, *My Name Is Sue*, sef enillydd Gwobr Total Theatr ar gyfer Cerddoriaeth a Theatr 2009.

**Am fwy o wybodaeth am The Village Social neu National Theatre Wales, cysylltwch â Catrin Rogers: 029 20 353 070 / 07540 686 725 / catrinrogers@nationaltheatrewales.org**

Wedi'i ysbrydoli i raddau gan *The Bacchae* Eurpides, a'i ddisgrifio gan ei greawdwyr fel 'The Vicar of Dibley yn cwrdd â The Wicker Man', mae *The Village Social* yn adrodd stori noson codi arian gymunedol ddiniwed a pharchus yr olwg sy'n troi'n wyllt a llygredig ymhen dim o amser. Bydd y darn gwyrdroëdig a hynod ddoniol hwn ymweld a neuaddau pentref ar draws Cymru, gyda noson y pentref gwbl annisgwyl.

*Bydd danteithion y noson yn cynnwys tocyn raffl, diod o'ch dewis a gloddest waedlyd, wyllt.*

Dywedodd John McGrath, Cyfarwyddwr Artistig National Theatre Wales: "Dafydd James yw un o artistiaid theatr Cymreig mwyaf cyffrous ei genhedlaeth - mae'n cyfuno synnwyr digrifwch unigryw gyda thalent gerddorol eithriadol. Mae'r cyfarwyddwr a chydawdur Ben Lewis eisoes wedi profi ei fod yn dalent eithriadol hefyd, yn enwedig yn ei waith gyda Inspector Sands. Rwy' wrth fy modd y byddant yn creu sioe gerdd gyntaf National Theatre Wales i ni."

Hyfforddwyd **Dafydd James** yn Ysgol Celfyddydau Perfformio Rhyngwladol Llundain (LISPA) ac mae'n gyfansoddwr, yn awdur ac yn berfformiwr. Enillodd *My Name is Sue*, y gwnaeth ef ei pherfformio a'i chyd-greu gyda Ben Lewis, Wobr Total Theatre ar gyfer Cerddoriaeth a Theatr, 2009. Yn ddiweddar mae wedi cyfieithu *Spring Awakening* i Theatr Genedlaethol Cymru. Bydd ei ddrama glodwiw *Llwyth* yn cael ei chyd-gynhyrchu gan Sherman Cymru a Theatr Genedlaethol Cymru fel rhan o Sioe'r Cyngor Prydeinig eleni yng Nghaeredin. Mae hefyd yn datblygu'r sgript ffilm. Enillodd *The Hunting of the Snark*, un o'i sgoriau theatr cyntaf, Wobr Cameron Mackintosh.

Mae **Ben Lewis** yn awdur, yn gyfarwyddwr ac yn berfformiwr, ac fe'i hyfforddwyd yn LAMDA. Cyfarwyddodd a chreodd ar y cyd gyda Dafydd James *My Name Is Sue* (Soho Theatre/teithio, Gwobr Total Theatre 2009). Mae'n gyd-gyfarwyddwr Artistig Inspector Sands, a chyd-greodd eu sioeau, *If That's All There Is* (Gwobr EIF 2009) a *Hysteria* (Gwbor Total Theatre 2006), sydd wedi teithio'n helaeth, yn fwyaf diweddar i Brits Off Broadway 2010. Mae'r cwmni yn datblygu eu trydedd sioe ar hyn o bryd, *Mass Observation* (teitl gweithredol) gyda chefnogaeth gan y Southbank Centre, y National Theatre Studio a'r Almeida. Mae hefyd wedi ysgrifennu dwy ddrama i BBC Radio 4; *Blue Sky Thinking* a *Tiny*.

Mae ymddangosiadau theatr **Carys Eleri** yn cynnwys: *Romeo a Juliet*, *Plas Drycin*, *Hen Rebel*, a *Tŷ Bernarda Alba* (Theatr Genedlaethol Cymru). Mae ei hymddangosiadau teledu yn cynnwys: *Pobol y Cwm* (BBC Cymru). Mae ei hymddangosiadau ffilm yn cynnwys: *Merlin and the War of the Dragons*.

Mae ymddangosiadau teledu **Rebecca Harries** yn cynnwys: *Belonging* a *The Bench* (BBC Cymru); *Con Passionate* (Apollo); *Teulu* (Boomerang); *Darllen 'Da Fi*, *Pentre Bach* a *Caffi Sali Mali* (Sianco); *Labordy 04321* (Cwmni Da); a *Outside The Rules* (BBC).

Mae ymddangosiadau theatr **Darren Lawrence** yn cynnwys: *The Passion* (National Theatre Wales/Wildworks); *Romeo & Juliet* (Mokitagrit); *Elegies For Angels Punks*, *Raging Queens With Black Box*, a *The Beach* (Cockpit Theatre); *Dick Whittington* (Leeds City Varieties); *Erogenous Zones*, *Saturday Night Forever*, a *All's Fair* (Sherman Theatre); *Butterflies Are Free* (The Mermaid); *Nothing To Pay* (Thin Language Theatre

Company); a *The Marriage* (Three Legged Company). Mae ei ymddangosiadau teledu yn cynnwys: *Days That Shook The World*, *Broken Glass*, *Lipstick On Your Collar* (BBC); a *Nuts & Bolts* (HTV Cymru). Mae ei ymddangosiadau radio yn cynnwys: *On The Throne* (BBC Radio 4).

Mae ymddangosiadau theatr **Gwydion Rhys** yn cynnwys: *Fresh Apples/Fale Surion* (Cwmni'r Fran Wen); *Cwrw, Chips A Darlith Deg* (Arad Goch); *Iesu* (Theatr Genedlaethol Cymru); *Farewell Fair Cruelty*, *A Simple Twist Of Fate*, a *Woyzeck* (tra'n hyfforddi yng Ngholeg y Drindod). Mae ei ymddangosiadau sioeau cerdd yn cynnwys: *Clymau* a *Heb Ei Fai* (tra'n hyfforddi yng Ngholeg y Drindod). Mae ei ymddangosiadau teledu yn cynnwys: *Zanzibar* a *Marcaroni A'r Lwli Lw* (S4C).

Mae ymddangosiadau theatr **Sue Roderick** yn cynnwys: *Servant of Two Masters* (Wales Theatre Company); *3 Minute Hamlet* (Looking Glass Theatre); *Granny Annie* (Grass Roots); *How the Other Half Loves, SAP*, a *Under Milk Wood* (Welsh Drama Company); a'r pantomeimiau *Cinderella* a *The Wizard of Oz* (Theatr Newydd, Caerdydd). Mae ei hymddangosiadau teledu yn cynnwys: *Ista'nbwl*, *Caerdydd*, *Pobol Y Cwm*, *Licyris Olsorts* a *Dinas* (S4C); *Streets of Gold*, *Trip Trap*, *Oliver's Travel*, *The Life of Eliza*, *Casualty*, *The Lifeboat*, *Selected Exits* a *Penny For Your Dreams* (BBC); *Mortimer's Law*, *Satellite City*, a *The Max Boyce Show* (BBC Cymru); *A Mind To Kill*, *The Committee* a *To Each His Own* (HTV); *The Bill*, *Coronation Street*, *End of Season* a *Shelley* (ITV); *The Angry Earth* (Channel 4). Mae ei hymddangosiadau ffilm yn cynnwys: *Patagonia*, *Twin Town*, *Morphine & Dolly Mixtures*, *Rebecca's Daughter* a *Hedd Wyn*. Mae ei hymddangosiadau radio yn cynnwys: *Tree of Liberty* (BBC Cymru), *Burnt* (BBC Radio 4) a *Born in Rhymney* (BBC Radio Wales).

Mae ymddangosiadau theatr **Oliver Wood** yn cynnwys: *A Good Night Out In The Valleys* (National Theatre Wales); *Sunflowered*, *Desire Lines*, *Shadow Of A Boy*, *Waves In The Chatroom* a *Speakeasy* (Sherman Cymru); *Cinderella* (Torch Theatre); *Fiddler On The Roof* (Canolfan Celfyddydau Aberystwyth); *Sleeping Beauty* (New Wolsey Theatre); *Electricity* (West Yorkshire Playhouse); *The Merchant Of Venice*, *Twelfth Night*, *Cymbeline* (Theatr Newydd, Caerdydd); *The Owl Service* (Theatre Royal, Plymouth) a *Romeo and Juliet* (English Touring Theatre). Mae ei ymddangosiadau teledu yn cynnwys: *Crash*, *Belonging* a *High Hopes* (BBC Cymru); a *Green Green Grass* (BBC). Mae ei ymddangosiadau ffilm yn cynnwys *London Boulevard* (G K Films) i'w rhyddhau yn 2010. Mae ei ymddangosiadau radio yn cynnwys *Pavement Stars*, *Truth Or Dare*, *Running Away With The Hairdresser* a *Steel Stitches* (Radio 4).

Cynhyrchir *The Village Social* gyda chefnogaeth cynllun Noson Allan Cyngor Celfyddydau Cymru (gweler Nodiadau i Olygyddion), a gyda Pontio yn Neuadd Bentref Mynydd Llandegai.

**-GWYBODAETH AM BERFFORMIADAU-**

**National Theatre Wales** yn cyflwyno
**THE VILLAGE SOCIAL**
**Crëwyd gan Dafydd James a Ben Lewis**

Cyfarwyddwr: Ben Lewis
Cyfarwyddwr Cerdd: Dafydd James
Dylunydd: Cai Dyfan
Mae'r cast yn cynnwys: Carys Eleri, Rebecca Harries, Darren Lawrence, Gwydion Rhys, Sue Roderick, ac Oliver Wood

**Dyddiadau a Lleoliadau**

**HYDREF 2011**

Dydd Iau 20 & dydd Gwener 21 Hydref, 7.30pm
Neuadd Blwyf Rhydri, Rhydri, Caerffili, CF83 3DF
Ffôn: 029 2088 2091

Dydd Sadwrn 22 Hydref, 7.30pm
Glasbury Arts, Neuadd Bentref Glasbury, Ffordd Hampton, Glasbury, Powys, HR3 5LU
Ffôn: 01497 847 426

Dydd Mawrth 25 Hydref, 7.30pm
Canolfan Soar, cyffordd Ffordd Tylacelyn/Ffordd Penygraig, Penygraig, Tonypandy, RCT, CF40 1JZ
Ffôn: 01443 420 870

Dydd Mercher 26 Hydref, 7.30pm
Theatr Fach Castell-nedd, Ffordd Westernmoor, Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot, SA11 1BQ
Ffôn: 01639 643 462

Dydd Iau 27 Hydref, 7.30pm
Neuadd Goffa Trefdraeth, Stryd y Gorllewin, Trefdraeth, Sir Benfro, SA42 0TF
Ffôn: 07772 004 218

Dydd Gwener 28 Hydref, 7.30pm
Neuadd Goffa Aberaeron, Ffordd y De, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DP
Ffôn: 01545 574 934

Dydd Sadwrn 29 Hydref, 7.30pm
Neuadd Bentref Llangwm, Ffordd Pill Parks, Llangwm, Hwlffordd, Sir Benfro, SA62 4HR
Ffôn: 01437 899 966

**TACHWEDD 2011**

Dydd Mercher 2 Tachwedd, 7.30pm
Theatr y Ddraig, Ffordd Jubille, Abermaw, Gwynedd, LL42 1EF
Ffôn: 01341 281 697

Dydd Iau 3 Tachwedd, 7.30pm
Neuadd Goffa Criccieth, Criccieth, Gwynedd, LL52 0HB
Ffôn: 01766 523 672

Dydd Gwener 4 Tachwedd, 7.30pm
Neuadd Goffa Edith Banks, Stryd Fawr, Northop, Sir y Fflint, CH7 6BQ
Ffôn: 07736 625 853

Dydd Sadwrn 5 Tachwedd, 7.30pm
Neuadd Bentref Mynydd Llandegai, Mynydd Llandegai, Bangor, Gwynedd, LL57 4LQ
Ffôn: 01248 605 437

Dydd Mawrth 8 Tachwedd, 7.30pm
Canolfan Gymuned Nasareth, Abertridwr, Caerffili, CF83 4AX
Ffôn: 07534 776 822

Dydd Mercher 9 Tachwedd, 7.30pm
Neuadd Les Cefneithin a Foelgastell, Heol y Parc, Cefneithin, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA14 7AN
Ffôn: 07403 859 841

Dydd Iau 10 Tachwedd, 7.30pm

Neuadd Bentref Llandinam, Llandinam
Powys, SY17 5BY
Ffôn: 01686 688 902

Dydd Gwener 11 Tachwedd, 7.30pm
Neuadd Gymuned Dolau, Dolau,
Llandrindod Wells, Powys, LD1 5TW
Ffôn: 01597 851 427

Dydd Sadwrn 12 Tachwedd, 7.30pm
Neuadd Goffa Llansilin, Llansilin,
Powys, SY10 7QB
Ffôn: 01691 791 626

Tocynnau ar werth 5ed Medi 2011

Mi fydd mwy o wybodaeth ar y neuaddau pentref ar gael ar nationaltheatrewales.org

Oed a argymhellir: 15+

Tag: #ntw15

**Noson y Wasg: Nos Wener 21ain o Hydref, yn Neuadd Blwyf Rhydri, Caerffili**

**-NODIADAU I OLYGYDDION-**

Lansiwyd National Theatre Wales ym mis Tachwedd 2009, ac mae'n creu theatr fywiogus yn y Saesneg, wedi'i gwreiddio yng Nghymru, gydag apêl ryngwladol.

Roedd sefydlu cwmni theatr genedlaethol Saesneg ei iaith i Gymru yn ymrwymiad yn rhaglen Cymru'n Un Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn cefnogi National Theatre Wales.

Mae Noson Allan yn gynllun gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i helpu i roi sioeau ardderchog i mewn i neuaddau cymuned. Am fwy o wybodaeth ar sut mae'n gweithio a rhai o'r teithiau gwych y gallech eu harchebu, cysylltwch â www.nightout.org.uk

Am fwy o wybodaeth am sioeau National Theatre Wales ewch i: nationaltheatrewales.org

**Am fwy o wybodaeth am The Village Social neu National Theatre Wales, cysylltwch â Catrin Rogers: 029 20 353 070 / 07540 686 725 / catrinrogers@nationaltheatrewales.org**